NYRSIO

Ar ôl graddio mewn Nyrsio, fel arfer byddwch yn gallu:

- Bod yn greadigol wrth ymateb i sefyllfaoedd gofal iechyd.
- Cyflwyno gwybodaeth yn hyderus ar lafar, yn ysgrifenedig a thrwy ddefnyddio technoleg, i ddarparu dadleuon cydlynol a rhesymegol i ategu penderfyniadau.
- Ymgysylltu a datgysylltu mewn perthynas therapiwtig drwy ddefnyddio damcaniaethau a sgiliau yn greadigol, gan ddangos doethineb moesegol a barn glinigol.
- Defnyddio sgiliau a gwybodaeth ymarferol yn hyderus a chreadigol.
- Dadansoddi'n feirniadol a dehongli data i ddarparu a rheoli gofal.
- Rheoli'ch hun, eich arferion ac arferion eraill yn unol â'r Cod Ymddygiad Proffesiynol, a gwerthuso'ch galluoedd a'ch cyfyngiadau'ch hun yn feirniadol.
- Dewis a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau i sefyllfaoedd cymhleth ac annisgwyl.
- Gweithredu strategaethau i hyrwyddo a gwerthuso gweithio mewn partneriaeth.
- Rhagweld sefyllfaoedd posib sy'n peri straen a gweithredu i leihau risg.
- Dangos barn glinigol gadarn mewn ystod o sefyllfaoedd a gwerthuso'n feirniadol effeithiolrwydd barn glinigol mewn ystod o gyd-destunau gofal proffesiynol.
- Cyfranogi mewn strategaethau sicrhau ansawdd a rheoli risg i greu a chynnal amgylchedd diogel.
- Rhoi arweiniad, delfryd ymddwyn a chefnogaeth i eraill wrth ddarparu gofal iechyd.
- Dadansoddi swyddogaethau'n feirniadol o fewn y tîm aml-broffesiynol a chynnig ffyrdd i gryfhau gofal sy'n canolbwyntio ar gleifion.

Cipolwg ar Nyrsio

Disgyblaeth alwedigaethol ac academaidd gymhwysol yw nyrsio ac fe'i harferir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd cymhleth. Mae nyrsio'n canolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a chynorthwyo unigolion, teuluoedd a grwpiau i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r gwaith yn golygu cynorthwyo pobl yr amharwyd ar eu hannibyniaeth, ac a all fod ag ystod o anableddau neu broblemau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae nyrsys yn gweithio gyda chleifion, cleientiaid, teuluoedd a chymunedau mewn lleoliadau gofal sylfaenol, gofal acíwt a chritigol, adsefydlu a gofal trydyddol.

Mae nyrsys yn ymarfer o fewn cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd. Drwy eu Cod Ymddygiad Proffesiynol, mae nyrsys yn cwmpasu cysyniadau cynhwysiant, cyfle cyfartal, hawliau unigol a grymuso grwpiau cleientiaid a chleifion. Mae ymreolaeth broffesiynol a chleifion/cleientiaid yn nodwedd allweddol. Mae'r wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cysylltiedig sy'n ategu addysg a hyfforddiant nyrsys yn cwmpasu nyrsio, gwyddorau naturiol a bywyd, gwyddorau cymdeithasol, iechyd ac ymddygiadol, moeseg, y gyfraith a'r dyniaethau, rheoli ymarfer myfyriol eich hun ac eraill a defnyddio'r rhain i gyd i ddarparu gofal nyrsio i gleientiaid a grwpiau cleientiaid.

Sources: